



# Dafydd ap Gwilym – CA5

## Tasg 1: Yr Amhersonol

1. Darllenwch y paragraffau isod o hunangofiant Gwyn Thomas.  
Ydych chi'n gwybod ystyr y geiriau sydd wedi eu huwcholeuo? Ystyriwch sut y byddech chi'n eu cyfieithu cyn clicio ar yr awgrym.

### Yr Aelwyd

Roedd ein haelwyd ni'n aelwyd grefyddol, heb fod mewn unrhyw fodd yn **sych-dduwiol**. Tan oeddwn i'n naw oed roeddem ni'n bedwar, Mam (Eluned), Dad (Ted), gŵr tawel, **anymwthgar** a chefnogwr brwd a chadarn i mi bob cam o'r ffordd, Taid (John Jones y Gof, sef tad fy mam), a minnau. Fel unig blentyn, fy mam oedd goleuni fy llygaid i, wrth reswm. Roedd hi'n ddarllenwraig **selog** iawn, gan ddarllen pentyrrau o lyfrau Cymraeg a Saesneg, ac yn un oedd yn cymryd ei chrefydd o ddifrif.

Yn ddiweddar, wrth **snwfflan** trwy hen bethau yn y tŷ yma mi **drewais** i ar lyfr nad oeddwn i wedi ei weld o'r blaen. Llyfr ysgrifennu oedd o, un glas, ac ynddo fo roedd nodiadau fy mam ar gyrsiau mewn rhyw ysgol nos neu'i gilydd. Fe sylweddolais **o'r newydd** mor wirioneddol ddeallus oedd hi. Athrawes plant bach oedd hi cyn priodi. O ran addysg neb yn y byd, **y peth gorau un** ydi cael mam sy'n athrawes plant bach. Pam? Am fod fy mam o athrawes wedi fy nysgu i ddarllen **ers pan oeddwn i'n ddim o beth**, cyn imi fynd i'r ysgol, ac felly doedd yna ddim her i mi yn y llyfrau a **roddid** imi i'w darllen yn y fan honno pan ddechreuais i fynd yno.

Roedd fy nhaid, tad fy mam, yn ŵr **urddasol** o ran ei ymddangosiad a'i gymeriad, yn ysgrythurwr heb ei ail, ac yn ddarllenwr mawr. Rydw i wedi sôn, mewn man arall, fel y byddai o'n rhyw fyfyrion ag ef ei hun, yn ei gadair freichiau bren, solat (cadair na fyddwn i'n gadael i neb arall feiddio eistedd arni, a chadair sydd heddiw yn fy meddiant i) am yr hyn yr oedd newydd ei ddarllen, gan ddefnyddio ei law i bwysleisio ambell beth yn ei fyfyrddod.

Thomas, G. (2015) *Llyfr Gwyn*, Barddas: Tal-y-bont, tt. 21-22



	CYMRAEG	Saesneg: eich awgrym chi?	SAESNEG (awgrymiadau'r golygydd)
1	sych-dduwiol		pious, religious and without humour
2	anymwthgar		unintrusive
3	selog		ardent, unfailing, constant
4	snwfflan		snuffle
5	mi drewais ar (o'r ferf taro)		I hit upon
6	o'r newydd		anew, once more
7	y peth gorau un		the best thing of all
8	ers pan oeddwn i'n ddim o beth		since I was a tiny tot
9	a roddid i mi (o'r ferf rhoi)		that used to be given to me
10	urddasol		dignified, noble



## 2. Yr amhersonol.

Ffurf ar yr amhersonol yw 'rhoddid'. Mae'r amhersonol yn ffurf ddefnyddiol iawn yn y Gymraeg.

Fel mae'r enw'n ei awgrymu – 'AMHERSONOL' – nid oes posibil dweud yn union PWY neu BETH sydd wedi gwneud y ferf pan mae yn y ffurf amhersonol.

Yn Saesneg, er mwyn mynegi hyn, rydym ni'n defnyddio ffurfiau fel *one, they* neu'r gystrawen oddefol (*passive*).

Fel hyn:

*One believes that ...*

Credir bod ...

*They believe that ...*

Credir bod ...

*It is believed that ...*

Credir bod ...

Mae tri o'r gosodiadau isod yn gywir a thri yn anghywir.

Maen nhw'n anghywir am eu bod nhw'n defnyddio'r AMHERSONOL + yn enwi PWY neu BETH sy'n gwneud y ferf.

Rhowch  i nodi cywir / anghywir.



Defnyddio'r AMHERSONOL yn gywir	
Gwelir llawer o blant yn chwarae ar yr iard	Dydyn ni ddim yn gwybod yn union pwy/beth sy'n gweld y plant.
Credir y gwleidyddion bod angen torri trethi.	
Dywedid yn yr hen amser bod modd dal annwyd wrth fynd allan yn y glaw.	Dydyn ni ddim yn gwybod yn union pwy/beth oedd yn arfer dweud.
Defnyddir y bardd lawer o gyflythrennu'n effeithiol i gyfleu morthwyl y gof.	
Ysgrifennwyd Dafydd ap Gwilym gywyddau serch i Morfudd	
Rhagwelir y bydd hi'n bwrw glaw drwy gydol yfory.	Dydyn ni ddim yn gwybod yn union pwy/beth sy'n rhagweld ...



# Dafydd ap Gwilym – CA5



## Tasg 2: Ysgrifennu creadigol

'... fel y byddai o'n rhyw fyfyrion ag ef ei hun [...] am yr hyn yr oedd newydd ei ddarllen, gan ddefnyddio ei law i bwysleisio ambell beth yn ei fyfyrddod.' (t. 21)

Yn y dyfyniad uchod o'r ail bennod yn y *Llyfr Gwyn*, 'Yr Aelwyd', mae Gwyn Thomas yn sôn am ei daid. Sylwch sut y mae e wedi canolbwyntio ar un ystum ac wedi ei ddisgrifio'n llawn. Drwy hyn, rydym ni'r darllenwyr yn gallu 'gweld' taid yr awdur yn glir o flaen ein llygaid.

Cyfansoddwch dri pharagraff am eich aelwyd chi. Gallwch chi greu aelwyd ddychmygol pe hoffech chi, ond cofiwch graffu ar ambell fanylyn er mwyn dod â'r 'aelwyd' a'r bobl sy'n byw arni 'yn fyw' i'r darllenwyr.

Efallai y byddwch chi'n canolbwyntio ar ddarn o gelfi neu ar berthynas. Y peth pwysig yw meddwl am y manylion a dewis a dethol y rhai sy'n mynd i ddod â'r llun 'yn fyw'.

Dechreuwch gyda'r geiriau:

Mae ein haelwyd ni'n aelwyd ....



# Dafydd ap Gwilym – CA5

## Tasg 3: Gramadeg / Arddweud

### Gramadeg Bodolaeth

Gofyniad: ‘... A ydwyf?’

Gosodiad: ‘Yr ydwyf,’ Atalnod

Gofyniad; ‘A ydwyf? ...’

Thomas, G. (2013) *Profiadau Inter Galatig*, Barddas: Llandybïe (t. 100)

### Tasg

Yn yr hen amser, cyn dyddiau prosesydd geiriau a chyfrifiadur, byddai pobl yn arddweud llythyrau wrth ysgrifennydd/ysgrifenyddes.

Roedd hi'n bwysig rhoi sylw i bob manylyn, gan ddweud nid yn unig y geiriau oedd i'w cynnwys ond hefyd pob atalnod.



priflythyren	ABC
llythyren fach	abc
atalnod	,
atalnod llawn	.
brawddeg newydd	
agor cromfach	(
cau cromfach	)
agor dyfyniad	“
cau dyfyniad	”
colon	:
hanner colon	;
gofynnod	?
ebychnod	!
collnod	'
acen grom	^
paragraff newydd	//
cysylltnod (heiffen)	-
gwahannod	—



## Darn 1

Partner 1 i ddweud y darn hwn wrth Bartner 2, a phartner 2 i'w ysgrifennu gan ddilyn y cyfarwyddiadau'n ofalus.

Dafydd ap Gwilym: dyma inni ŵr nad ydym ni ddim yn gwybod dyddiad ei eni, na dyddiad ei farw. Dydi hyn ddim yn ddechrau addawol i unrhyw lyfr am neb. Mewn gwirionedd, y mae'n amhosib peidio â bod yn gryno am ei fywyd o —ac yn gwbl amhosib dweud unrhyw beth newydd am y bywyd hwnnw gan fod y dystiolaeth wrthrychol amdano fo mor brin, ac wedi ei harchwilio'n arwrol a gofalus ddi-hysbyddol gan fwy nag un to o ysgolheigion. Wrth gwrs, yr oedd yna un a oedd yn gwybod cryn dipyn am Ddafydd ap Gwilym, sef Iolo Morganwg (1747—1826) ond, yn anffodus, rhith neu hanner rhith —hanner rhith o'r de, plis — yn ei feddwl o'i hun oedd y Dafydd ap Gwilym hwnnw, felly 'awn ni ddim ar ei ôl o.

Tudalen 9

## Darn 2

Partner 2 i ddweud y darn hwn wrth Bartner 1, a phartner 1 i'w ysgrifennu gan ddilyn y cyfarwyddiadau'n ofalus.

Y mae meddwl am fardd â thelyn yn ei law yn dod â ni i ystyried beth a olygai bod yn fardd 'swyddogol' yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Y mae'n gamsynied gweddol gyffredin i feddwl fod y gynghanedd wedi bod yn rhan o farddoniaeth ein beirdd wrth eu swydd o'r dechrau. Naddo. [...] Yn raddol y gweithiodd y gynghanedd ei ffordd i'n barddoniaeth ...

Pwy bynnag a sylweddolodd fod yna system, bod yna bedair cynghanedd sylfaenol, a bod y rheini i'w canu ar wahanol fathau o fesurau, yr oedd hwnnw (os mai un ydoedd) yn athrylith. Y tebyg ydi mai Einion Offeiriad oedd o. Yn sicr, efô oedd awdur y fersiwn gynharaf sydd ar gael o Ramadeg y Beirdd, tua 1316—17, ac efô — yn ôl pob tebyg — a ddyfeisiodd rai mesurau newydd. (Y mae'n werth nodi, hefyd, fod yna arwyddion sicr fod Dafydd yn gwybod am Ramadeg Einion Offeiriad.)





Cywirwch waith eich gilydd.

Pa mor glir oedd eich cyfarwyddiadau chi?

Pa mor astud roeddech chi'n gwrando ar gyfarwyddiadau eich gilydd?



# Dafydd ap Gwilym – CA5

## Tasg 4: Cywydd ‘Yr Wylan’

Cliciwch ar y ddolen isod a gwrandewch ar ‘Yr Wylan’ gan Dafydd ap Gwilym.

<http://www.dafyddapgwilym.net/cym/3win.htm>

Pa linellau sydd wedi aros gyda chi?

Pa luniau oedd yn ymddangos yn eich dychymyg wrth wrando ar y llais?

Llinellau? Geiriau?

Lluniau/ Delwedddau?



Yna, ar yr un wefan, cliciwch ar y botymau isod er mwyn dyfnhau eich dealltwriaeth o'r cywydd hwn:

- aralleiriad
- cyfieithiad Saesneg
- nodiadau



## Dafydd ap Gwilym – CA5

### Tasg 5: Gwaith trafod

Ar hyd y blynyddoedd, mae ysgolheigion wedi mynd ati i geisio dadansoddi'r llawysgrifau lle ceir copïau o waith yr hen feirdd.

Gan fod cerddi beirdd poblogaidd fel Dafydd ap Gwilym wedi eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth ar lafar, mae angen gwaith manwl a gofalus i geisio dyfalu beth oedd y fersiwn wreiddiol. Mae un gêm fach o 'Chinese whispers' yn rhoi syniad i ni o ba mor debygol yw hi bod cerddi wedi newid wrth iddyn nhw gael eu hailadrodd.

Yn y tabl isod fe welwch dair fersiwn. Daw'r gyntaf o'r llawysgrifau, mae'r ail yn aralleiriad o wefan dafyddapgwilym.net ac mae'r drydedd wedi ei llunio gan Gwyn Thomas.

Er mwyn dyfnhau eich dealltwriaeth o'r cywydd, trafodwch y fersiynau â'ch partner.

Ystyriwch yr eirfa a'r sain yn arbennig.



Dafydd ap Gwilym	Aralleiriad dafyddapgilym.net	Gwyn Thomas
<a href="#">Annhebig i'r mis dig du</a>	Annhebyg [yw Mai] i'r mis du cas	Gwahanol i'r mis digofus, du
<a href="#">A gerydd i bawb garu,</a>	sy'n gwahardd pawb rhag caru,	A rwystro pawb rhag caru,
<a href="#">A bair tristlaw a byrddydd</a>	sy'n peri glaw trist a dyddiau byrion	Sy'n peri glaw trist a dyddiau byrion
<a href="#">A gwynt i ysbeilio gwŷdd,</a>	a gwynt i ddinoethi'r coed,	A gwynt i ysbeilio'r coed,
<a href="#">A llesgedd, breuoledd braw,</a>	a llesgedd, gwendid dychrynlyd,	A gwendid, sy'n ddychryn ar freuder [NEU sy'n brawf ar freuder dyn]
<a href="#">A llaesglog a chenllysglaw,</a>	a chlogyn llaes a chenllysg,	A chôt laes a bwrw cenllysg
<a href="#">Ac annog llanw ac annwyd,</a>	a chymell llifogydd ac oerfel,	Ac sy'n annog llifogydd ac oerni
<a href="#">Ac mewn naint llifeiriant llwyd,</a>	a llifeiriant brown mewn nentydd,	A llifeiriant llwyd mewn nentydd
<a href="#">A dwyn sôn mewn afonydd,</a>	a chadw sŵn mewn afonydd,	A pheri sŵn mawr mewn afonydd
<a href="#">A llidio a duo dydd,</a>	a golau dydd yn cochi ac yn tywyllu,	A pheri llid a duolliw dydd,
<a href="#">Ac awyr drymled ledocer</a>	ac awyr drymaidd oerllyd	A chwawl trymllyd, oerllyd
<a href="#">A'i lliw yn gorchuddio'r lloer.</a>	a'i lliw yn gorchuddio'r lleuad.	A'i liw yn cuddio'r lleuad.
Dêl iddo rhyw addo rhwydd	Deued iddo (rhyw fygwth hawdd)	Doed iddo (rhyw fygwth rhwydd)
Deuddrwg am ei wladeiddrwydd	ddau anffawd am ei anghwrteisi.	Ddwawl-ddrwg am ei anghwrteisi



## Dafydd ap Gwilym – CA5

### Tasg 6: Cymharu cerddi

#### 1. Yr Aderyn Gwyn

Thomas, G. (1984) *Wmgawa*, Gwasg Gee: Dinbych (t. 21)

##### Yr Aderyn Gwyn

Aderyn mawr, aderyn gwyn

O'r dŵr i'r wawr yn esgyn

Aderyn gwyn o'r dŵr,

O'r dŵr yn ddwndwr disglair

I'r wawr, i'r wawr yn esgyn.

Ac yna ergyd

Yn dryllio'r bore, malu'r byd.

Ffroen fetel gwn yn mygu,

A'r gwynder a'r aderyn

O'r bore hwnnw'n disgyn.

Llaeth, eira, ewyn; gwyn,

Gwyn, gwyn; aderyn

A chyrraedd ei adenydd

Dros aur y wawr yn estyn.

Aderyn gwyn ar doriad dydd

Yn ir o'r dŵr yn esgyn.

Ac yn yr hesg, y gwynt,

Y gwynt yn llesg yn troelli.

Awyr eglur, eglur; wag;

Ac ynddi'r gwynt yn troelli,

Y gwynt ynlllest a phluen,

Un bluen waedlyd, wen.

A'r byd, y byd o dano,

Y byd o dan 'r aderyn gwyn,

Y byd yn dechrau deffro,

Yn torri ma's yn lliwiau;

Ac yntau, yr aderyn gwyn,

I'r awyr bur yn esgyn.

Ystyriwch y gerdd hon gan Gwyn Thomas a chymharwch chi â chywydd 'Yr Wylan' gan Dafydd ap Gwilym.

Trafodwch, e.e.

- strwythur a mesur
- delweddau
- sain
- themâu
- ieithwedd

Ystyriwch y gerdd hon gan Gwyn Thomas a chymharwch chi â chywydd 'Mis Mai a Mis Tachwedd' gan Dafydd ap Gwilym.

Trafodwch, e.e.

- strwythur a mesur
- delweddau
- sain
- themâu
- ieithwedd



## 2. Nos o Dachwedd

Thomas, G. (1994) *Y Pethau Diwethaf*, Gwasg Gee: Dinbych t.21

### Nos o Dachwedd

Mae'r goleuadau'n wlyb ar hyd y ffyrdd  
A'r tywyllwch yn diferyd oddi ar y coed;  
Yr haf a basiodd heibio.

Uwchben, yn bentwr, mae'r düwch  
A'r awyr fel llenni wedi'u gollwng:  
Yr haf a basiodd heibio.

Dilewyd gan amser arwyddion yr heulwen;  
Yn y nos mae'r disgleiriadau ar goll;  
Yr haf a basiodd heibio.

Ond mewn tai mae goleuadau,  
Yn hen haf yn y ffenestri;  
Yn rhwyll yr haearn yn y gratiau  
Y mae melyn a chochni  
Egni hen yr heulwen;

Ac yn llygad y teledydd  
Y mae eliffant wedi'i grasu'n rychau  
Ar ei gefn mewn dwr lleidiog yn chwarae  
Dan olwg di-baid rhyw haf.

Yn dameidiau trwy dywyllwch,  
Trwy fwllwch yn llewyrchiadau  
mae  
Yr haf na phasia heibio.



# Dafydd ap Gwilym – CA5

## Tasg 7: Llunio arraith

Euog? Dieuog?

Rydych chi'n gweithio i gwmni o gyfreithwyr ac rydych wedi cael y dasg o amddiffyn Dafydd ap Gwilym.

Ysgrifennwch arraith i'w darllen yn y llys yn esbonio beth wnaeth Dafydd ap Gwilym a pham na ddylid ei gosbi.

Recordiwch eich arraith.

Cofiwch geisio ennyn cydymdeimlad yr ynadon a'r barnwr gan greu darlun ffafriol o'ch cleient.

Defnyddiwch y wybodaeth a geir yn y cywydd a rhowch eich gogwydd chi ar y digwyddiadau.